

# Adroddiad mewnwelediad – dysgu o arolygiadau





# Cynnwys

<b>Crynodeb gweithredol .....</b>	<b>2</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>6</b>
<b>2. Canfyddiadau allweddol o’r ymchwil a gomisiynwyd .....</b>	<b>7</b>
<b>Trosolwg.....</b>	<b>7</b>
<b>Yr hyn sy’n gyrru perfformiad .....</b>	<b>8</b>
<b>Themâu cyffredin o gylch perfformiad da a gwael.....</b>	<b>11</b>
<b>3. Dadansoddi mewnol pellach .....</b>	<b>14</b>
<b>Perfformiad yn erbyn safonau .....</b>	<b>14</b>
<b>4. Prif ganfyddiadau .....</b>	<b>17</b>
<b>5. Camau nesaf .....</b>	<b>19</b>
<b>Rhoi’r hyn a ddysgwyd ar waith.....</b>	<b>19</b>
<b>Atodiad 1: Disgrifiadau llawn a byr o’r prif egwyddorion a safonau .....</b>	<b>20</b>

# Crynodeb gweithredol

Fe gomisiynom ymchwil annibynnol gan Solutions for Public Health (SPH) i adnabod y prif batrymau, tueddiadau a themâu mewn adroddiadau arolygu fferyllol rhwng Tachwedd 2013 ac Awst 2018.

Roedd yr ymchwil yn seiliedig ar ddadansoddiad meintiol o 14,650 o adroddiadau a dadansoddiad ansoddol o sampl o 249 o adroddiadau arolygu.

Gwnaethom hefyd ddadansoddiad mewnol pellach i gael mewnwelediad i'r rhesymau pam bod rhai safonau penodol heb eu cyrraedd.

Bydd yr hyn a ddysgom yn helpu i lywio ein hagwedd at reoleiddio ac arolygu fferyllfeydd. Rydym hefyd yn annog perchnogion fferyllfeydd a thimau fferyllol i ddefnyddio canfyddiadau'r adroddiad i'w helpu i wella perfformiad eu fferyllfeydd yn erbyn y safonau, a fydd o fudd i'r cleifion a'r cyhoedd sy'n defnyddio eu gwasanaethau.


## Canfyddiadau allweddol

- Llwyddodd mwyafrif helaeth (85.2%) y fferyllfeydd a arolygwyd rhwng Tachwedd 2013 ac Awst 2018 i gyrraedd pob un o'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.
- Arolygwyd 1,322 o fferyllfeydd ddwywaith rhwng 2013 a 2018; cadwodd 70.7% eu graddfa a gwellodd 21.8% eu graddfa yn yr ail arolygiad.

## Patrymau

- Dangosodd y dadansoddiad pa egwyddorion a safonau oedd yn bennaf gyfrifol am berfformiad cyffredinol – felly pan oedd y rhain yn dda neu yn wael, roedd y fferyllfa hefyd yn fwy tebygol o gael gradd dda neu wael gyffredinol.
- Dangoswyd yn gyson mai Egwyddor 1 (llywodraethiant) oedd â'r prif ddylanwad ar berfformiad da neu wael cyffredinol fferyllfa, wedi ei dilyn gan Egwyddor 4 (gwasanaethau). Yn ogystal, gwelwyd bod fferyllfeydd y pennwyd nhw'n dda o ran Egwyddor 2 (staff) yn ennill gradd dda yn gyffredinol.
- Mae'r canfyddiadau uchod yn awgrymu bod Egwyddorion 1 (llywodraethiant) a 4 (gwasanaethau) yn gyrru perfformiad da a gwael cyffredinol, lle bo Egwyddor 2 (staff) yn gyrru perfformiad da yn unig.

**Ffigur 1:** Safonau sy'n gyrru perfformiad fferyllfa



### Safonau sy'n chwarae rhan allweddol ym mherfformiad cyffredinol fferyllfa:

Safonau y canfuwyd eu bod yn gyrru perfformiad da cyffredinol a pherfformiad gwael cyffredinol:

- Safon 1.1 (adnabod a rheoli risgiau)
- Safon 1.2 (adolygu a monitro diogelwch gwasanaethau)
- Safon 4.2 (darparu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol)

Safonau y canfuwyd eu bod yn gyrru perfformiad da cyffredinol:

- Safon 2.2 (sgiliau a chymwysterau staff)
- Safon 2.4 (diwylliant o fod yn agored ac yn onest ac o annog dysgu)

Safonau y canfuwyd eu bod yn gyrru perfformiad gwael cyffredinol:

- Safon 4.3 (rheoli ffynonellau meddyginiaethau a dyfeisiau yn ddiogel)

- Nododd y dadansoddiad bod fferyllfeydd â nodweddion penodol, gan gynnwys bod mewn ysbyty, bod yn rhan o gadwyn fferyllol mwy neu fod mewn lleoliad gwledig yn cael eu graddio'n dda yn fwy aml. Roedd fferyllfeydd cymunedol, yn enwedig fferyllfeydd annibynnol neu rai oedd yn rhan o gadwyn fechan, yn fwy cyffredin yn y grŵp llai o fferyllfeydd nad oedd yn cyrraedd un neu ragor o'r safonau ac wedi eu graddio'n wael neu'n foddhaol gyda chynllun gweithredu gwella.
- Fodd bynnag, roedd pob un o'r chwe fferyllfa a gafodd radd ragorol gyffredinol yn fferyllfeydd cymunedol, ac roedd pedwar o'r chwech yn fferyllfeydd unigol annibynnol neu'n rhan o gadwyn â rhwng 2 a 5 o ganghennau. Er bod y niferoedd yn rhy isel i fod yn ystadegol arwyddocaol, mae hyn yn awgrymu bod fferyllfeydd cymunedol llai hefyd yn gallu perfformio'n rhagorol.

## Tueddiadau

- O ddadansoddi'n fewnol, nodwyd y pum safon gafodd eu graddio'n dda amlaf. Safonau'n ymwneud â sgiliau staff, monitro diogelwch ac ansawdd gwasanaethau, rheoli risgiau, diwylliant a darpariaeth gwasanaethau diogel ac effeithiol gafodd eu graddio'n dda yn fwyaf aml.
- Gwnaeth y dadansoddiad hefyd adnabod y pum safon na chafodd eu cyrraedd amlaf a'r rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â chyrraedd pob un o'r safonau hyn, i helpu fferyllfeydd ddeall lle gallan nhw, o bosibl, fethu. Safonau'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau ac offer, rheoli risgiau, monitro diogelwch ac ansawdd gwasanaethau, cadw cofnodion a darparu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol oedd y safonau nad oedd yn cael eu cyrraedd amlaf.

## Themâu

- Dangosodd y dadansoddiad bod saith thema'n dod i'r wyneb fel rhai oedd yn gysylltiedig â pherfformiad da a/neu wael:
  - Llywodraethiant
  - Dull rhagweithiol
  - Prosesau effeithlon
  - Ymatebolrwydd
  - Ffocws ar gwsmeriaid a chleifion
  - Gwerth ychwanegol
  - Diffyg gwybodaeth allweddol a methiant i ddysgu
- Edrychodd y dadansoddiad ar dair thema a osodwyd o flaen llaw; arweinyddiaeth, arloesedd ac arddangos deilliannau. Gwelwyd bod y rhain hefyd yn ymddangos fel pe baent yn chwarae rhan wrth yrru perfformiad fferyllfa yn gyffredinol.
- Gwelwyd bod ansawdd staff fferyllol yn tanategu'r themâu oedd yn gysylltiedig â pherfformiad gwael neu dda a gellir felly ystyried bod hynny'n chwarae than bwysig ym mherfformiad cyffredinol fferyllfa.

## Canfyddiadau allweddol o'r ymchwil:

- Mae fferyllfeydd sy'n rhoi'r bobl sy'n defnyddio'u gwasanaethau wrth galon yr hyn a wnânt ac sy'n ymateb yn rhagweithiol i anghenion pobl yn fwy tebygol o berfformio'n dda yn erbyn y safonau.
- Dylai fferyllfa sy'n cael anawsterau gyda'r safonau ddechrau drwy ganolbwyntio ar lywodraethiant a'r ddarpariaeth gwasanaethau, gan mai dyma'r meysydd sydd fwyaf cysylltiedig â pherfformiad gwael.
- Bydd fferyllfeydd sy'n buddsoddi mewn ymdrechion i wella ansawdd eu staff yn perfformio'n well yn gyffredinol.
- Cyrhaeddodd mwyafrif helaeth y fferyllfeydd y safonau o ran offer, cyfleusterau a lleoliadau.
- Canfu'r ymchwil o ran fferyllfeydd oedd wedi eu harolygu fwy nag unwaith, ei bod yn fwy cyffredin i'r radd arolygu wella yn hytrach na gwaethygu.
- Dim ond os yw perchnogion fferyllfeydd wedi sicrhau bod ganddynt y llywodraethiant, systemau a diwylliant cywir yn eu lle ac yn buddsoddi yn eu staff y mae fferyllfeydd yn perfformio'n dda yn

erbyn y safonau. Pan fo'r elfennau hyn ar waith, mae'r staff fferyllol yn gallu cyflawni arferion da neu hyd yn oed rhagorol. Gall arweinyddiaeth gref fod yn gysylltiedig â chael y rhain yn eu lle.

- Dylai fferyllfeydd sy'n cael trafferth gyda'r safonau sicrhau eu bod yn adfyfrio ar eu perfformiad ac yn dysgu o'u camgymeriadau a hefyd yn rhannu gwybodaeth a dysgu ymhlith y staff fferyllol.
- Mae cyswllt rhwng cynnig gwerth ychwanegol o ran ystod ac ansawdd gwasanaethau a pherfformiad da. Gall hyn gael ei yrru gan anghenion lleol, a'u datblygu a'u darparu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy fod yn arloesol.

## Camau nesaf

Rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgom drwy ein dadansoddiad i lywio ein gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys:


- defnyddio ein 'hyb gwybodaeth' ar-lein ar ein safle cyhoeddi arolygiadau fferyllol newydd i dynnu sylw at enghreifftiau o arfer ragorol, da a gwael o ran y themâu allweddol sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad hwn, yn ogystal ag enghreifftiau o'r safonau sydd â rôl flaenllaw yn gyrru perfformiad a'r safonau nad ydyn nhw'n cael eu cyrraedd amlaf
- rhannu ein canfyddiadau gyda sefydliadau allweddol sydd â rôl yn cefnogi perchnogion fferyllfeydd neu weithwyr fferyllol proffesiynol, er mwyn iddynt allu rhoi cymorth ac adnoddau pellach i'w haelodau o ran y themâu a'r safonau a nodwyd yn y dadansoddiad
- bydd yr hyn a ddysgwyd yn cyfrannu at lywio'n hagwedd at arolygu, gan gynnwys y safonau y byddwn yn rhoi sylw arbennig iddynt mewn arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth ac ymweliadau cyn-gofrestru â fferyllfeydd, a sut y byddwn yn amserlennu arolygiadau arferol
- ystyried yr hyn a ddysgwyd mewn perthynas â gwaith ehangach, ein strategaeth addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol er enghraifft

# 1. Cyflwyniad

I baratoi at y gwaith o gyflwyno newidiadau i'r ffordd yr ydym yn arolygu a rheoleiddio fferyllfeydd cofrestredig yn 2019, fe gomisiynom ymchwil annibynnol gan Solutions for Public Health (SPH) i'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu o arolygu fferyllfeydd cofrestredig.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys dadansoddiad meintiol o 14,650 o adroddiadau a dadansoddiad ansoddol o 249 o adroddiadau arolygu yn erbyn ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig rhwng Tachwedd 29013 ac yn gynnar ym mis Awst 2018 dan yr hen ddull arolygu. Roedd yr hen ddull yn cynnwys graddau gwahanol ar gyfer canlyniad cyffredinol arolygiad, yr egwyddorion a'r safonau, fel y dangosir yn Ffigur 2 isod. Rhoddir crynodeb o'r disgrifiadau o'r safonau yn Atodiad 1.

**Ffigur 2:** Y berthynas rhwng gradd gyffredinol fferyllfa, gradd ar gyfer egwyddorion a gradd ar gyfer safonau rhwng 2013 a 31 Mawrth 2019.



Mae manylion llawn am yr ymchwil a gomisiynwyd gan SPH, y dulliau a ddefnyddiwyd, a'r canfyddiadau, ar gael yn yr adroddiad llawn ar y dadansoddiad o adroddiadau arolygu. Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys tablau manwl o'r dadansoddiad data. Mae adroddiad cryno ar y dadansoddiad o adroddiadau arolygu hefyd ar gael sy'n nodi'r prif ganfyddiadau ymchwil.

Yn dilyn yr ymchwil a gomisiynwyd, gwnaethom hefyd ddadansoddiad mewnol pellach i gael mewnwelediad i'r rhesymau pam bod rhai safonau penodol heb eu cyrraedd.

Bydd yr adroddiad mewnwelediad hwn ar ddysgu o arolygiadau yn ymdrin â'r canfyddiadau allweddol a ddeilliodd o'r ymchwil, dadansoddiad mewnol pellach ar y ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad, crynodeb o'r prif negeseuon a'r camau nesaf.



## 2. Canfyddiadau allweddol o'r ymchwil a gomisiynwyd

### Trosolwg

#### Canfyddiadau allweddol

- Roedd mwyafrif helaeth y fferyllfeydd (85.2%) a arolygwyd yn cyrraedd y safonau i gyd
- Arolygwyd 1,322 o fferyllfeydd ddwywaith rhwng 2013 a 2018; cadwodd 70.7% eu graddfa a gwellodd 21.8% eu graddfa yn yr ail arolygiad, yn dangos bod gwelliant mewn perfformiad yn gyffredinol dros amser

Bydd yr adran hon yn ymdrin â:

- chyfanswm y nifer o arolygiadau fesul gradd
- tueddiadau ar gyfer fferyllfeydd a arolygwyd fwy nag unwaith.

#### Cyfanswm y nifer o arolygiadau fesul gradd

Rhwng Tachwedd 2013 ac Awst 2018 cynhaliom 14,650 o arolygiadau. O'r cyfanswm hwn:

- Cyrhaeddodd 82.5% bob un o'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, gyda'r 15% arall yn methu â chyrraedd un neu ragor o'r safonau
- cafodd y rhan fwyaf eu graddio'n foddhaol (78%) – dwy ran o dair heb gynlluniau gwella (67%) ac ychydig dros un o bob deg gyda chynllun gwella (11%)
- graddiwyd tua un o bob pump yn dda (18%)
- graddiwyd llai nag 1 o bob 20 fferyllfa yn wael (4%)
- dim ond 6 (0.04%) gafodd eu graddio'n rhagorol

#### Tueddiadau ar gyfer fferyllfeydd a arolygwyd fwy nag unwaith

O fewn y set data o 14,650 o fferyllfeydd, cafodd 1,322 eu harolygu fwy nag unwaith. O ddadansoddi'r newid mewn gradd rhwng yr arolygiad diweddaraf a'r un cyntaf gwelwyd:

- bod dim newid yng ngradd 70.7% (934) ohonynt:
  - 2.3% (31) yn dda yn y ddau
  - 65.9% (871) yn foddhaol yn y ddau
  - 2.4% (32) yn wael yn y ddau
- Bod 21.8% (281) wedi gwella erbyn yr arolygiad diweddaraf:
  - 12.5% (165) o foddhaol i dda – y newid mwyafrif cyffredin mewn gradd

- 0.5% (7) o wael i dda
- 8.8% (116) o wael i foddhaol – yr ail newid mwyaf cyffredin mewn gradd
- Bod 7.6% (100) wedi gwaethygu o ran y canlyniad cyffredinol:
  - 2.6% (34) o dda i foddhaol
  - 0.5% (7) o dda i wael
  - 4.5% (59) o foddhaol i wael

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod graddau bron bob amser yn cael eu cynnal neu eu gwella pan fo fferyllfa yn cael ei harolygu eto. Canfu'r ymchwiliad o ran fferyllfeydd oedd wedi eu harolygu fwy nag unwaith, ei bod yn fwy cyffredin i'r radd arolygu wella yn hytrach na gwaethygu.

## Yr hyn sy'n gyrru perfformiad

### Canfyddiadau allweddol

- Dangosodd y dadansoddiad pa egwyddorion a safonau oedd yn bennaf gyfrifol am berfformiad – felly pan oedd y rhain yn dda neu yn wael, roedd y fferyllfa hefyd yn fwy tebygol o gael gradd dda neu wael gyffredinol.
- Dangoswyd yn gyson mai Egwyddor 1 (llywodraethiant) oedd â'r prif ddylanwad ar berfformiad da neu wael cyffredinol fferyllfa, wedi ei dilyn gan Egwyddor 4 (gwasanaethau). Yn ogystal, gwelwyd bod fferyllfeydd y pennwyd nhw'n dda o ran Egwyddor 2 (staff) yn ennill gradd dda yn gyffredinol.
- Mae'r canfyddiadau uchod yn awgrymu bod Egwyddor 1 (llywodraethiant) a 4 (gwasanaethau) yn gyrru perfformiad da a gwael cyffredinol, lle bo Egwyddor 2 (staff) yn gyrru perfformiad da yn unig.
- Canfuwyd mai Safonau 1.1 (adnabod a rheoli risgiau) ac 1.2 (adolygu a monitro diogelwch ac ansawdd gwasanaethau) oedd prif yrwyr perfformiad cyffredinol dda neu wael, wedi eu dilyn gan Safon 4.2 (darparu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol).
- Nododd y dadansoddiad bod fferyllfeydd â nodweddion penodol, gan gynnwys bod mewn ysbyty, bod yn rhan o gadwyn fferyllol mwy neu fod mewn lleoliad gwledig yn cael eu graddio'n dda yn fwy aml. Roedd fferyllfeydd cymunedol, yn enwedig fferyllfeydd unigol annibynnol neu rai oedd yn rhan o gadwyn fechan, yn cael eu graddio'n wael yn amlach.
- Dim ond chwe fferyllfa gafodd eu graddio'n 'rhagorol'; roedd pob un o'r rhain yn fferyllfeydd cymunedol neu'n rhan o gadwyn â rhwng 2 a 5 o ganghennau.

Yn yr adran hon byddwn yn ymdrin â'r prif bethau sy'n gyrru perfformiad o ran:

- yr egwyddorion a'r safonau
- nodweddion fferyllfeydd cofrestredig a'r math o arolygiad

## Yr hyn sy'n gyrru perfformiad o ran egwyddorion a safonau

### Egwyddorion


Canfu'r ymchwili fod mwyafrif helaeth y fferyllfeydd a gafodd radd gyffredinol dda wedi derbyn gradd dda ar gyfer Egwyddor 1 (llywodraethiant) (93.7%), Egwyddor 2 (staff) (83.7%) ac Egwyddor 4 (gwasanaethau) (80.4%) gan awgrymu felly bod y tair egwyddor hyn yn gyrru perfformiad da.

O ran fferyllfeydd a gafodd radd gyffredinol wael, cafodd 81,7% radd wael ar gyfer Egwyddor 1 (llywodraethiant) a 57.0% radd wael ar gyfer Egwyddor 4 (gwasanaethau) gan ddangos felly bod yr egwyddorion hyn hefyd yn chwarae rôl amlwg wrth yrru perfformiad. Yn ddiddorol, dim ond 28.4% o'r fferyllfeydd a gafodd radd wael a dderbyniodd radd wael ar gyfer Egwyddor 2 (staff), sy'n awgrymu bod llai o gyswllt rhwng staff a pherfformiad gwael, er bod staff da yn gyrru perfformiad da.

Roedd Egwyddor 3 (lleoliadau) ac Egwyddor 5 (offer a chyfleusterau) bron wastad wedi eu graddio'n foddhaol ymhob adroddiad arolygu, gan awgrymu bod perfformiad yn erbyn yr egwyddorion hyn yn cael llai o effaith ar y radd gyffredinol. Roedd hyn hefyd yn dangos bod mwyafrif helaeth y fferyllfeydd yn ateb gofynion y CFfC yn y meysydd hyn.

Dangosodd dadansoddi ystadegol pellach mai Egwyddor 1 (llywodraethiant) oedd yr egwyddor oedd â'r dylanwad mwyaf ar berfformiad cyffredinol fferyllfa, a dangoswyd bod perfformiad dan Egwyddor 4 (gwasanaethau) hefyd yn ddylanwadol iawn ar berfformiad cyffredinol fferyllfa.

**Ffigur 3:** Safonau sy'n gyrru perfformiad fferyllfa



Y safonau a gafodd eu barnu'n dda pan oedd gradd gyffredinol fferyllfa hefyd yn dda oedd:

- Safon 1.1 (adnabod a rheoli risgiau), 97.2%
- Safon 1.2 (adolygu a monitro diogelwch gwasanaethau), 94.6%
- Safon 4.2 (darparu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol), 90.8%
- Safon 2.2 (sgiliau a chymwysterau staff), 80.4%
- Safon 2.4 (diwylliant), 77.8%

Mae'r safonau i gyd yn cyd-weddu ag egwyddorion 1,2 a 4, sy'n cryfhau'r canfyddiad mai'r rhain sy'n gyrru perfformiad fwyaf.

Pan fo gradd gyffredinol fferyllfa yn wael, y safonau oedd yn cael eu barnu'n rhai na chyrrhaeddwyd amlaf oedd:

- Safon 1.1 (adnabod a rheoli risgiau), 81.5%
- Safon 1.2 (adolygu a monitro diogelwch gwasanaethau), 66.9%
- Safon 4.2 (darparu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol), 57.7%
- Safon 4.3 (rheoli ffynonellau meddyginiaethau a dyfeisiau yn ddiogel), 57.3%

Mae'r safonau hyn yn cyd-weddu ag egwyddorion 1 a 4, sy'n cadarnhau'r canfyddiad mai'r rhain yw prif yrwyr perfformiad gwael ac mae diffyg unrhyw safonau o fewn Egwyddor 2 (staff) unwaith eto'n dangos bod llai o gyswllt rhwng staff a pherfformiad gwael.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y tair cyntaf o'r safonau hyn yn ymddangos yn y ddwy restr (1.2, 1.2 a 4,2), gan awgrymu bod y rhain yn arwyddocaol iawn wrth ddylanwadu ar berfformiad da a pherfformiad gwael.

## Yr hyn sy'n gyrru perfformiad o ran nodweddion fferyllfa a math o arolygiad

### Gradd dda gyffredinol

Roedd fferyllfeydd yn cael eu graddio'n 'dda' amlaf, ac roedd hyn yn ystadegol arwyddocaol (gan ddefnyddio lefelau hyder 95%) pan oeddent yn:

- **fferyllfa ysbyty** (28.2%) yn hytrach nag yn fferyllfa gymunedol (18.0%)
- perthyn i **gadwyni fferyllol mwy** gyda 26–100 o ganghennau (24.3%), neu dros 100 o ganghennau (27.0%), o'i gymharu gyda 2-5 o ganghennau (9.9%), 6-25 o ganghennau (8.6%) a fferyllfeydd unigol annibynnol (7.6%)
- yn cael arolygiad â **rhybudd** (19.1% o'i gymharu â 12.5% ar gyfer arolygiadau heb rhybudd)
- yn **yr Alban** (40.1%), o'i gymharu â Lloegr (16.0%) neu Gymru (18.0%)
- mewn **lleoliad gwledig** (22.4%) o'i gymharu â lleoliad trefol (17.9%), dinasoedd neu drefi (19.1%) a chytrefi mawr (15.9%)
- **heb bryderon** wedi eu mynegi amdanynt wrthon ni o'r blaen: Roedd gan 5.2% o fferyllfeydd a raddiwyd yn gyffredinol 'dda' bryderon wedi eu mynegi amdanynt o'r blaen gyda'r CFFC, o'i gymharu ag 17.5% o fferyllfeydd a raddiwyd yn 'wael' yn gyffredinol.

### Graddau boddhaol gyda chynllun gweithredu neu wael yn gyffredinol

Roedd fferyllfeydd yn cael eu graddio'n 'foddhaol gyda chynllun gweithredu' neu'n 'wael', ac roedd hyn yn ystadegol arwyddocaol (gan ddefnyddio lefelau hyder 95%) pan oeddent yn:

- fferyllfa **gymunedol** (15.1%) yn hytrach nag yn fferyllfa ysbyty (4.0%)
- **fferyllfeydd unigol annibynnol** (23.3%) neu'n **gadwyni llai** o 2-5 o ganghennau (21.2%) neu 6-25 o ganghennau (18.7%), o'i gymharu â'r rheiny mewn cadwyni o 26-100 o ganghennau (9.8%) neu dros 100 o ganghennau (8.5%)
- yn cael arolygiad **heb rhybudd** (27.5%) o'i gymharu ag arolygiadau â rhybudd (12.8%)

- yn yr **Alban** (18.2%), o'i gymharu â Lloegr (15.0%) neu Gymru (6.1%)
- wedi cael **nifer o bryderon** wedi eu mynegi amdanynt gyda ni: Roedd gan 1.9% o'r fferyllfeydd gafodd radd 'boddhaol gyda chynllun gweithredu' a 4.8% o'r rhai a gafodd radd 'gwael yn gyffredinol' ddau bryder neu ragor wedi eu mynegi wrth y CFFC o'i gymharu gyda 0.7% o'r rhai a gafodd radd 'dda yn gyffredinol'.

### Gradd ragorol yn gyffredinol

Dim ond chwe fferyllfa a gafodd radd ragorol, ac oherwydd y nifer fechan, nid ydynt yn ystadegol arwyddocaol. Fodd bynnag, roedd pob un o'r chwe fferyllfa a gafodd radd ragorol gyffredinol yn fferyllfeydd cymunedol, ac roedd pedair o'r chwech yn fferyllfeydd unigol annibynnol neu'n rhan o gadwyn â rhwng 2 a 5 o ganghennau. Mae'r ystod ehangach o raddau perfformiad ar gyfer y fferyllfeydd bychain, cymunedol yn dangos y gallant arddangos perfformiad gwych er bod tuedd i fferyllfeydd ysbytai a fferyllfeydd mwy o faint berfformio'n well mewn arolygiadau.

## Themâu cyffredin o gylch perfformiad da a gwael

### Canfyddiadau allweddol

- Nododd y dadansoddiad saith thema a ddaeth i'r amlwg o ran eu cyswllt gyda perfformiad da a/neu wael ac fe ystyriodd hefyd dair thema a bennwyd o flaen llaw; arweinyddiaeth, arloesedd ac arddangos deilliannau i gleifion
- Mae ansawdd staff fferyllol yn tanategu'r themâu a nodwyd a gellir felly ystyried bod hynny'n chwarae than bwysig ym mherfformiad cyffredinol fferyllfa.

Bydd yr adran hon yn crynhoi'r saith thema a ddaeth i'r amlwg o'r adolygiad ansoddol allanol a gomisiynwyd o'r 249 o adroddiadau, ynghyd â'r tair thema a osodwyd o flaen llaw ac y gofynnwyd i'r ymchwilyr eu hystyried. Bydd pwysigrwydd staff fferyllol yn galluogi'r themâu a adnabuwyd hefyd yn cael ei gydnabod.

### Themâu a ddaeth i'r amlwg

Nodwyd saith thema yn sgil dadansoddiad o'r 'gwaelod i fyny'. Roedd y themâu yn torri ar draws ffiniau, a chanfuwyd tystiolaeth berthnasol ar gyfer mwy nag un egwyddor oedd yn gysylltiedig â gradd gyffredinol fferyllfa. Mae disgrifiad o'r themâu isod.

### Themâu'n gysylltiedig â pherfformiad da a gwael

1. **Llywodraethiant** – Roedd cyswllt rhwng llywodraethiant cryf a pherfformiad da lle roedd mecanweithiau cadarn a thrylwyr ar waith i reoli gwasanaethau a gweithrediadau fferyllol. Yn groes i hyn, canfuwyd bod llywodraethiant gwan mewn fferyllfeydd oedd â pherfformiad gwael â nifer o fethiannau wedi eu nodi o ran reoli gweithrediadau fferyllol.
2. **Agwedd ragweithiol** – canfuwyd bod cael prosesau trefnus ar waith i ragweld unrhyw broblemau posibl, a'u lliniaru, yn ogystal â pharodrwydd i ddysgu, datblygu a newid yn nodweddion cyffredin mewn fferyllfeydd a raddiwyd yn rhagorol neu'n dda. Yn groes i hyn, roedd agwedd oddefol yn amlwg ymhlith fferyllfeydd a raddiwyd yn wael neu'n foddhaol gyda chynllun gwella, lle dylid bod wedi adnabod problemau a gweithredu arnynt a hynny heb ddigwydd.

3. **Prosesau effeithlon** – gwelwyd bod fferyllfeydd oedd wedi eu trefnu'n dda ac yn defnyddio prosesau effeithlon mewn ystod o weithgareddau yn perfformio'n well yn gyffredinol na'r rhai oedd â phrosesau llai effeithlon lle roedd staff yn aml yn ymdrin â materion wedi iddynt ddigwydd neu'n gwastraffu amser ar weithgareddau diangen.
4. **Ymatebolrwydd** – roedd cyswllt rhwng gallu a pharodrwydd i ymateb yn gadarnhaol at anghenion pobl oedd yn defnyddio fferyllfa a pherfformiad cyffredinol dda. Roedd fferyllfeydd oedd â diffyg ymateb, megis peidio â gweithredu ar adborth pobl, yn cael eu graddio'n wael neu'n foddhaol gyda chynllun gwella yn fwy aml.
5. **Ffocws ar gwsmeriaid a chleifion** – roedd cael ffocws cryf ar gwsmeriaid a chleifion yn gysylltiedig â pherfformiad cyffredinol dda, gan ddangos bod yn rhaid i gwsmeriaid a chleifion fod wrth galon gweithgareddau fferyllfeydd. Canfuwyd bod gan fferyllfeydd oedd yn perfformio'n wael lai o ffocws ar gwsmeriaid a chleifion yn eu gweithrediadau a'u gwasanaethau.

#### Themâu'n gysylltiedig â pherfformiad da yn unig

6. **Gwerth ychwanegol** – roedd cynnig ystod o wasanaethau, yn rhai arloesol yn aml, mewn ymateb i anghenion y gymuned leol yn nodwedd gyffredin mewn fferyllfeydd a raddiwyd yn rhagorol neu'n dda yn gyffredinol. Nid yw hon yn thema draws-ffiniol ac fe'i dangosir yn bennaf drwy tystiolaeth ar gyfer Egwyddor 4 (gwasanaethau).

#### Themâu'n gysylltiedig â pherfformiad gwael yn unig

7. **Diffyg gwybodaeth allweddol a methiant i ddysgu** – gwelwyd bod gan rai fferyllfeydd staff oedd yn brin o wybodaeth allweddol angenrheidiol i wneud tasgau yn ddiogel ac yn effeithiol drwy'r amser. Yn ogystal, ni ddefnyddiwyd cyfleoedd ar gyfer dysgu gan y sefydliad, megis dysgu o bethau aeth bron o chwith, yn llawn. Dim ond yn y fferyllfeydd nad oedd yn perfformio cystal y gwelwyd hyn.

Gwelwyd bod y themâu hyn i gyd yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, mewn fferyllfeydd â gradd dda gall **agwedd ragweithiol** (thema 2) hwyluso'r gwaith o weithredu **prosesau effeithlon** (thema 3), a danategir gan **lywodraethiant cryf** (thema 1). Yn yr un modd, mewn fferyllfeydd â gradd wael, gall **agwedd oddefol** (thema 2) fod wrth wraidd **methiant i ddysgu** (thema 7) a chyfrannu at **ddiffyg gwybodaeth allweddol** (thema 7).

Mae enghreifftiau o dystiolaeth ar gyfer pob thema ar gael yn y **crynodeb** a'r **adroddiadau llawn** ac ar ein **gwefan hyb gwybodaeth**.

#### Themâu a nodwyd o flaen llaw

Cyn i'r gwaith ymchwil gael ei wneud, fe nodom dair thema, arweinyddiaeth, arloesedd ac arddangos deilliannau ar gyfer cleifion, fel pethau a allai effeithio ar berfformiad. Yn yr ymchwil allanol a gomisiynwyd, roeddem am ddeall pa dystiolaeth a allai fod ynghylch y themâu hyn yn yr adroddiadau arolygu a pha ddylanwad y gallent fod yn ei gael ar berfformiad.

Mae crynodeb o'r themâu hyn isod ac mae **rhagor o enghreifftiau yn y prif adroddiad**.

8. **Arweinyddiaeth** – Mae arweinyddiaeth yn berthnasol i bob un o'r saith thema a ddaeth i'r amlwg ac yn rheswm posibl dros berfformiad da neu wael. Canfuwyd tystiolaeth anuniongyrchol yn dangos sut mae arweinyddiaeth gref yn gefn i berfformiad da ac arweinyddiaeth wan yn cyfrannu at berfformiad gwael. Fodd bynnag, gan nad yw arweinyddiaeth yn cael ei hasesu'n uniongyrchol drwy ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, ni chofnodwyd tystiolaeth uniongyrchol

ynghylch ansawdd arweinyddiaeth mewn adroddiadau arolygu. Rhaid felly drin unrhyw gysylltiad â pherfformiad cyffredinol gyda gofal.

9. **Arloesedd** – Roedd cyflwyno gwasanaethau arloesol fwyaf cyffredin mewn fferyllfeydd oedd â gradd ragorol neu dda, gan awgrymu bod cysylltiad rhwng arloesedd a pherfformiad da. Gwelwyd bod fferyllfeydd â gradd wael yn ei chael yn anos gweithredu newidiadau a gallai hyn gyfyngu ar eu gallu i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.
10. **Arddangos deilliannau ar gyfer cleifion** – Gwelwyd mwy o dystiolaeth o ddeilliannau cadarnhaol mewn adroddiadau arolygu ar fferyllfeydd a raddiwyd yn rhagorol neu'n dda. Roedd dystiolaeth yn disgrifio materion posibl neu go iawn a allai arwain at ddeilliannau gwael i gleifion yn fwy cyffredin ymhlith fferyllfeydd a raddiwyd yn rhai gwael, gan awgrymu bod arddangos deilliannau cadarnhaol i gleifion hefyd yn gysylltiedig â pherfformiad cyffredinol fferyllfa.

## Staff fferyllol

Roedd staff fferyllfa yn chwarae rôl hollbwysig yn y themâu sy'n disgrifio'r ffordd y mae staff yn cyflwyno gwasanaethau. Er enghraifft, pan fo digon o staff â'r cymwysterau priodol ac sy'n derbyn cefnogaeth drwy strwythurau llywodraethiant, maen nhw'n fwy abl i **weithio'n effeithlon** (thema 3), **ymddwyn yn rhagweithiol** (thema 2) ac arddangos **ffocws cryf ar gwsmeriaid a chleifion** (thema 5), **yn ymateb i'w hanghenion** (thema 4). Os yw hyn i gyd yn ei le, mae staff fferyllol yn fwy tebygol o awgrymu a gweithredu **syniadau arloesol i wella** (thema 9) sy'n **ychwanegu gwerth** (thema 6). Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn debygol o arwain at ragor o enghreifftiau o **ddeilliannau cadarnhaol** i gleifion (thema 9). Mae ansawdd staff fferyllol yn tanategu'r themâu a nodwyd a gellir felly ystyried ef bod yn chwarae rôl bwysig ym mherfformiad fferyllfa.

# 3. Dadansoddi mewnlol pellach

## Perfformiad yn erbyn safonau

### Canfyddiadau allweddol

- O ddadansoddi'n fewnlol, nodwyd y pum safon a gafodd eu graddio'n dda neu'n rhagorol amlaf
- Gwnaeth y dadansoddiad hefyd adnabod y pum safon na chafodd eu cyrraedd amlaf a'r rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â chyrraedd pob un o'r safonau hyn, i helpu fferyllfeydd ddeall lle gallen nhw, o bosibl, fethu.

Bydd yr adran hon yn ymdrin â'r:

- Pum safon a farnwyd yn rhagorol neu'n dda amlaf
- Pum safon a farnwyd heb eu cyrraedd amlaf a chrynodeb o'r rhesymau dros berfformiad gwael

### Pum safon a farnwyd yn rhagorol neu'n dda amlaf

Dangosodd dadansoddiad a wnaed yn fewnlol o adroddiadau arolygu o 1 Tachwedd 2013 tan 1 Medi 2019 mai'r pum safon a farnwyd yn rhagorol neu'n dda amlaf o blith yr holl arolygiadau oedd:

1. 2.2 Mae gan staff y sgiliau, y cymwysterau a'r galluoedd cywir ar gyfer eu rôl a'r tasgau maent yn eu cyflawni, neu'n gweithio dan oruchwyliaeth person arall pan fônt yn hyfforddi (11.8%).
2. 1.2 Mae diogelwch ac ansawdd gwasanaethau fferyllol yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd (11.0%).
3. 1.1 Mae'r risgiau ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol yn cael eu hadnabod a'u rheoli (10.5%).
4. 2.4 Mae diwylliant o fod yn agored ac yn onest ac o annog dysgu (10.3%).
5. 4.2 Mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu rheoli a'u darparu'n ddiogel ac yn effeithiol (8.4%).

### Y pum safon y barnwyd amlaf eu bod heb eu cyrraedd

Mae gwaith dadansoddi a wnaed yn fewnlol ar adroddiadau arolygu rhwng 1 Tachwedd 2013 ac 1 Medi 2019 yn dangos mai'r safonau oedd heb eu cyrraedd amlaf oedd 4.3, 1.1, 1.6, 1.2 a 4.2. Mae disgrifiad o'r safonau a'r rhesymau pam y barnwyd nad oeddent wedi eu cyrraedd isod yn Nhabl 1.

**Tabl 1:** Y 5 safon na chyrraeddwyd amlaf a'r rhesymau pam



Safle (% heb gyrraedd)	Rhif y Safon a disgrifiad ohoni	Prif reswm a nodwyd yn yr adolygiad ansoddol dros beidio â chyrraedd y safon
<b>1</b> <b>(12.5%)</b>	4.3 Mae meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>a. dod o ffynonellau ag enw da</li> <li>b. diogel ac addas at eu diben</li> <li>c. cael eu storio'n ddiogel</li> <li>d. cael eu cadw mewn ffordd sy'n sicrhau na cheir mynediad atynt gan bobl heb hawl i wneud hynny</li> <li>e. cael eu cyflenwi'n ddiogel i gleifion</li> <li>f. cael eu gwaredu mewn ffordd ddiogel</li> </ul>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Dim sicrwydd ynghylch diogelwch ac addasrwydd at ddiben o ran meddyginiaethau, yn sôn yn benodol am y rhewgell (neu thermolabil, ymateb i wres) – ymwneud â 4.3b</li> <li>2. Dim sicrwydd ynghylch diogelwch ac addasrwydd at ddiben meddyginiaethau'n gyffredinol, yn sôn yn benodol am feddyginiaethau y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio – ymwneud â 4.3b</li> <li>3. Batsus cymysg/meddyginiaethau wedi eu labelu'n annigonol – ymwneud â 4.3b</li> <li>4. Cyffuriau a Reolir heb eu storio'n ddiogel – ymwneud â 4.3c</li> <li>5. Cyffuriau a Reolir heb eu diogelu rhag mynediad heb awdurdod atynt a meddyginiaethau'n gyffredinol heb eu diogelu rhag mynediad heb awdurdod – ymwneud â 4.3d</li> </ol>
<b>2</b> <b>(12.1%)</b>	1.1 mae'r risgiau ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol yn cael eu hadnabod a'u rheoli	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gweithdrefnau safonol – ddim yn eu lle, heb eu diweddarau neu'r staff ddim yn eu dilyn</li> <li>2. Risgiau ddim yn cael eu rheoli – roedd y rhain yn ymwneud â nifer o faterion, systemau monitro dôs, storio meddyginiaethau, glanweithdra, lefelau staffio neu hyfforddiant neu ddiffyg prosesau i gofnodi a monitro pethau aeth bron o le.</li> </ol>
<b>3</b> <b>(10.1%)</b>	1.2 Mae diogelwch ac ansawdd gwasanaethau fferyllol yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Diffyg cofnodi pethau aeth bron o le</li> <li>2. Camgymeriadau dosbarthu heb eu cofnodi/monitro/adolygu</li> <li>3. Pethau aeth bron o le/Camgymeriadau dosbarthu heb eu hadolygu i lywio newid/dysgu ohonynt</li> <li>4. SOPau – angen adolygu/heb eu llofnodi gan bob aelod staff/ddim yn ymdrin â'r meysydd gofynnol i gyd/heb eu dilyn</li> </ol>

Safle (% heb gyrraedd)	Rhif y Safon a disgrifiad ohoni	Prif reswm a nodwyd yn yr adolygiad ansoddol dros beidio â chyrraedd y safon
		5. Mekanweithiau monitro ac adolygu'n annigonol
<b>4 (8.5%)</b>	1.6 Mae'r holl gofnodion sy'n ofynnol i sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn ddiogel yn cael eu cadw a'u cynnal yn gywir	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cofnodion cyffuriau a reolir heb eu cynnal yn briodol</li> <li>2. Cofnodion presgripsiynau preifat heb eu cynnal yn briodol</li> <li>3. Cofnodion Fferyllydd â Chyfrifoldeb heb eu cynnal yn briodol</li> <li>4. Cofnodion cyflenwadau argyfwng heb eu cynnal yn briodol</li> <li>5. Cofnodion i gyd heb eu cynnal yn briodol</li> </ol>
<b>5 (8.2%)</b>	4.2 Mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu rheoli a'u darparu'n ddiogel ac yn effeithiol	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Angen System Monitro Dosau/ Angen Gweithdrefnau Safonol/angen adolygu prosesau</li> <li>2. Gwasanaethau fferyllol heb eu rheoli a'u darparu'n ddiogel ac yn effeithiol</li> <li>3. Dosbarthu di-drefn/storio meddyginiaethau'n annigol</li> <li>4. Prosesau monitro/adolygu cleifion ar feddyginiaethau risg uchel yn annigonol</li> <li>5. Dim cofnod o wiriadau dyddiadau dosbarthu/stoc allan o ddyddiad</li> </ol>

*Mae'r safleoedd uchod yn ymwneud ag arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Tachwedd 2013 ac 1 Medi 2019, lle mae'r adroddiadau'n gyflawn fel y maent ar 1 Medi 2019.*

Mae tair safon yn ymddangos yn y rhestr o'r bum safon a farnwyd yn dda neu'n rhagorol amlaf ac yn y rhestr o'r bum safon a farnwyd nad oeddent yn cyrraedd y safon amlaf. Sef:

- Safon 1.1 (adnabod a rheoli risgiau)
- Safon 1.2 (adolygu a monitro diogelwch gwasanaethau)
- Safon 4.2 (darparu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol)

Mae'r canfyddiadau hyn yn cytuno gyda chanfyddiadau'r ymchwil a gomisiynwyd y manylir arnynt uchod ac a oedd yn ystyried y safonau sy'n gyrru perfformiad da a gwael.

## 4. Prif ganfyddiadau

Wedi ystyried yr holl ymchwil sydd wedi ei gwneud a'r dadansoddiad o berfformiad fferyllol, daw nifer o brif ganfyddiadau i'r golwg:

### Gall unrhyw fferyllfa berfformio'n dda

Er bod patrymau ynghylch nodweddion fferyllfeydd yn bodoli, mae'r ymchwil yn dangos bod pob fferyllfa, o bob gwlad, lleoliad a maint, yn gallu arddangos perfformiad da neu ragorol.

Mae hyn yn arbennig o amlwg ymhlith y fferyllfeydd y barnwyd eu bod yn rhagorol, gan nad oedden nhw'n rhannu'r nodweddion a welwyd yn fwy cyson gysylltiedig â pherfformiad da.

### Mae gofal â'r claf yn ganolog iddo yn hollbwysig

Nododd y dadansoddiad ansoddol o adroddiadau arolygu nifer o themâu oedd yn gosod y claf wrth galon perfformiad a gwasanaeth fferyllol effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys ffocws ar gwsmeriaid a chleifion, ymatebolrwydd, agwedd ragweithiol, arloesedd a blaenoriaethu deilliannau i gleifion.

### Dylai fferyllfeydd sy'n cael anawsterau gyda'r safonau ddechrau drwy ganolbwyntio ar lywodraethiant a'r ddarpariaeth gwasanaethau

Mae'r canfyddiadau wedi dangos bod llywodraethiant a darpariaeth gwasanaethau yn feysydd allweddol sy'n gysylltiedig â pherfformiad cyffredinol wael. Bydd cael yr elfennau hyn yn iawn yn rhoi fferyllfeydd ar ben y ffordd o ran gwelliant.

### Bydd ffocysu ar staffio'n helpu fferyllfeydd i ragori ar y safonau

O ran fferyllfeydd sy'n cyrraedd safonau'r CFFC, mae'r ymchwil yn dangos y bydd parhau i ffocysu ar lywodraethiant a'r ddarpariaeth gwasanaethau yn arwain at berfformiad cyffredinol gwell. Dangosodd hefyd, er bod y rhan fwyaf o fferyllfeydd yn cyrraedd y safonau o ran staffio, y bydd y rheiny sy'n buddsoddi mewn ymdrechion i wella ansawdd eu staff yn perfformio'n well yn gyffredinol.

### Mae offer a lleoliadau fferyllol yn cyson gyrraedd ein safonau

Ychydig iawn o fferyllfeydd a fethodd â chyrraedd safonau'r CFFC o ran offer a lleoliadau. Er y gellid gwella, bob amser, ar y meysydd hyn, gall y canfyddiad hwn roi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod gan fferyllfeydd offer a lleoliadau sy'n ddiogel, yn ddigonol ac yn addas at eu diben.

### Mae graddau bron bob amser yn cael eu cynnal neu eu gwella pan fo fferyllfa yn cael ei harolygu eto

Canfu'r ymchwil o ran fferyllfeydd oedd wedi eu harolygu fwy nag unwaith, ei bod yn fwy cyffredin i'r radd arolygu wella yn hytrach na gwaethygu.

Mae hefyd yn werth nodi yma bod gofyn i fferyllfeydd weithredu cynllun gwella os byddant yn cael gradd wael neu foddhaol gyda chynllun gweithredu. Rhaid i'r gweithredoedd gael eu pennu cyn i'r broses arolygu ddod i ben, ac mae hyn yn enghraifft arall o sut gall arolygiadau wella perfformiad fferyllfeydd.

### Rôl arweinyddiaeth

Er nad yw safonau'r CFFC yn rhoi prawf penodol ar arweinyddiaeth, mae'n amlwg y byddai'r themâu a nodwyd fel rhai sy'n gyrru perfformiad da a pherfformiad gwael yn cael budd o arweinyddiaeth gref.

Mae enghreifftiau o feysydd fyddai'n ffynnu dan arweinyddiaeth effeithiol yn cynnwys llywodraethiant a staff, ac arloesedd ac agwedd ragweithiol.

### **Pwysigrwydd dull cyfannol**

Mae'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yn rhoi fframwaith i greu a chynnal yr amgylchedd iawn ar gyfer ymarfer fferylliaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Gwnaeth yr ymchwil adnabod yr hyn oedd yn gyrru perfformiad fferyllol a'r themâu all ei wella. Gyda'i gilydd, mae'r safonau, y gyrwyr a'r themâu yn creu dull cyfannol i gyflawni perfformiad gwell mewn fferylliaeth.

### **Dysgu o berfformiad gwael**

Thema allweddol oedd yn gysylltiedig â pherfformiad gwael oedd diffyg gwybodaeth a methiant i ddysgu. Dylai fferyllfeydd sy'n cael trafferth gyda'r safonau felly sicrhau eu bod yn adfyfyrio ar eu perfformiad ac yn dysgu o'u camgymeriadau a hefyd yn rhannu gwybodaeth a dysgu ymhlith y staff fferyllol.

Bydd yr enghreifftiau o berfformiad gwael ymhob un o'r themâu a adnabuwyd yn yr ymchwil yn darparu enghreifftiau defnyddiol o'r manau gwan a all helpu fferyllfeydd i osgoi'r agweddau hyn ar berfformiad gwael.

### **Dysgu o berfformiad da**

Thema bwysig oedd yn gysylltiedig â pherfformiad da oedd gwerth ychwanegol. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag ystod ac ansawdd y gwasanaethau a gynigir gan fferyllfeydd. Gallai hyn fod yn ychwanegol at y gwasanaethau a ddarperir yn gyffredinol a gallai anghenion lleol ei yrru. Gellid ei ddatblygu a'i ddarparu mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy ffyrdd arloesol.

Mae enghreifftiau o berfformiad da a pherfformiad gwael yn y **prif adroddiad** ac ar ein **hyb gwybodaeth**.

# 5. Camau nesaf

## Rhoi'r hyn a ddysgwyd ar waith

### Rhannu dysgu a mewnwleidiad

Rydym erbyn hyn yn cyhoeddi adroddiadau arolygu ar wefan newydd, fydd yn galluogi pobl sy'n gweithio o fewn y sector fferyllol, a'r tu allan iddi, chwilio am adroddiadau arolygu, a'u hadolygu a'u dadansoddi.

Mae gan y wefan newydd hefyd 'hyb gwybodaeth' ar-lein, gydag enghreifftiau o ymarfer rhagorol, da a gwael a adnabuwyd drwy arolygiadau fferyllol. Mae'r hyb gwybodaeth wedi ei ddylunio i allu cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gydag enghreifftiau o arfer ragorol, da a gwael o ran y themâu allweddol sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad hwn, yn ogystal ag enghreifftiau o'r safonau sydd â rôl flaenllaw yn gyrru perfformiad a'r safonau nad ydyn nhw'n cael eu cyrraedd amlaf.

Rydym yn annog perchnogion fferyllfeydd a thimau fferyllol i ddefnyddio'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn, a'r adnoddau sydd ar gael ar y wefan newydd, i wella perfformiad ac arferion eu fferyllfeydd.

Rydym hefyd wedi rhannu ein canfyddiadau gyda sefydliadau allweddol sydd â rôl yn cefnogi perchnogion fferyllfeydd neu weithwyr fferyllol proffesiynol, er mwyn iddynt allu rhoi cymorth ac adnoddau pellach i'w haelodau o ran y themâu a'r safonau a nodwyd yn y dadansoddiad.

### Arolygiadau

Bydd yr hyn a ddysgwyd drwy'r adroddiad hwn yn helpu i lywio ein hagwedd at arolygiadau. Er enghraifft, wrth gynnal arolygiadau ar sail gwybodaeth, lle gellir teilwra ffocws yr arolygiad i'r wybodaeth dan sylw neu'r pryder a fynegwyd wrthon ni, bydd ein harolygwyr wastad yn ystyried y chwe safon sydd â'r dylanwad pennaf ar berfformiad fferyllfa.

Bydd arolygwyr yn rhoi sylw penodol i'r chwe safon hyn yn ystod ymweliad cyn-gofrestru â fferyllfa. Gellid defnyddio methiannau i gyrraedd un o'r chwe safon hyn hefyd i lywio amserlennu arolygiadau arferol yn y dyfodol.

### Gwaith arall

Mae'r hyn a ddysgwyd drwy'r dadansoddiad hefyd yn cael ei ystyried yn ehangach; er enghraifft bydd yr hyn a ddysgwyd o ran effaith llywodraethiant a systemau ar berfformiad staff yn helpu'r CFfC i lunio ei strategaeth addasrwydd i ymarfer o'r newydd. Bydd y cyd-destun ehangach hefyd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael â phryderon am weithwyr proffesiynol unigol a fferyllfeydd.

# Atodiad 1: Disgrifiadau llawn a byr o'r prif egwyddorion a safonau

## Egwyddor 1 – Llywodraethiant

Mae'r trefniadau llywodraethiant yn amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

Safon	Disgrifiad llawn o'r safon	Disgrifiad byr o'r safon
1.1	Mae'r risgiau ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol yn cael eu hadnabod a'u rheoli	Adnabod a rheoli risgiau
1.2	Mae diogelwch ac ansawdd gwasanaethau fferyllol yn cael eu hadolygu a'u monitro	Adolygu a monitro diogelwch gwasanaethau
1.3	Mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu cyflawni gan staff sydd â rolau sydd wedi eu diffinio'n glir a llinellau atebolrwydd clir	Rôl ac atebolrwydd staff
1.4	Gall unigolion a sefydliadau roi adborth a mynegi pryderon am y fferyllfa, gwasanaethau a staff, a bydd y rhain yn cael eu hystyried a bydd gweithredu pan fo angen	Y broses adborth
1.5	Mae trefniadau indemniad neu yswiriant priodol ar waith ar gyfer y gwasanaethau fferyllol a ddarperir	Trefniadau yswiriant/indemniad
1.6	Mae'r holl gofnodion sy'n ofynnol i sicrhau bod gwasanaethau fferyllol yn ddiogel yn cael eu cadw a'u cynnal yn gywir	Cadw cofnodion
1.7	Mae gwybodaeth yn cael ei rheoli i ddiogelu preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion a'r cyhoedd sy'n derbyn gwasanaethau fferyllol	Rheoli gwybodaeth a chyfrinachedd
1.8	Amddiffynnir plant ac oedolion agored i niwed.	Amddiffyn/Diogelu

## Egwyddor 2 – Staff

Mae gan staff y pŵer a'r gallu sydd eu hangen i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

Safon	Disgrifiad llawn o'r safon	Disgrifiad byr o'r safon
2.1	Mae digon o staff, sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol, i ddarparu gwasanaeth fferyllol diogel ac effeithiol	Lefelau staffio
2.2	Mae gan staff y sgiliau, y cymwysterau a'r galluedd sydd eu hangen ar gyfer eu rôl a'r tasgau maen nhw'n eu gwneud, neu'n gweithio dan oruchwyliaeth person arall pan fônt yn hyfforddi	Sgiliau a chymwysterau staff

Safon	Disgrifiad llawn o'r safon	Disgrifiad byr o'r safon
2.3	Gall staff gydymffurfio â'r gofynion proffesiynol a chyfreithiol sydd arnynt ac maent wedi eu hymbweru i ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol er budd cleifion a'r cyhoedd	Cydymffurfiaeth, pŵer a proffesiynoldeb staff
2.4	Mae diwylliant o fod yn agored ac yn onest ac o annog dysgu	Diwylliant
2.5	Mae staff wedi eu hymbweru i roi adborth a mynegi pryderon ynghylch cyrraedd y safonau ac agweddau eraill ar wasanaethau fferyllol	Adborth a phryderon staff
2.6	Nid yw cymhelliannau neu dargedau'n peryglu iechyd, diogelwch neu les cleifion a'r cyhoedd, na chrebwyll proffesiynol staff.	Priodoldeb cymhelliannau a thargedau

### Egwyddor 3 – Lleoliadau

Mae amgylchedd a chyflwr y lleoliad y darperir gwasanaethau fferyllol ynddo, ac unrhyw leoliadau cysylltiedig, yn amddiffyn iechyd, diogelwch a les cleifion a'r cyhoedd.

Safon	Disgrifiad llawn o'r safon	Disgrifiad byr o'r safon
3.1	Mae lleoliadau yn ddiogel, yn lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol at y gwasanaethau fferyllol a ddarperir	Glendid a chynnal a chadw lleoliadau
3.2	Mae lleoliadau'n diogelu preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion a'r cyhoedd sy'n derbyn gwasanaethau fferyllol	Preifatrwydd a chyfrinachedd lleoliadau
3.3	Mae lleoliadau'n cael eu cynnal a'u cadw i lefel lanweithdra briodol at y gwasanaethau fferyllol a ddarperir	Hylendid lleoliadau
3.4	Mae lleoliadau'n ddiogel ac yn gwahardd mynediad i bobl heb awdurdod	Diogelwch lleoliadau
3.5	Darperir gwasanaethau fferyllol mewn amgylchedd sy'n briodol ar gyfer darparu gofal iechyd.	Priodoldeb yr amgylchedd.

### Egwyddor 4 – Gwasanaethau, gan gynnwys rheoli meddyginiaethau

Mae'r ffordd y darperir gwasanaethau fferyllol, gan gynnwys rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, yn amddiffyn iechyd, diogelwch a les cleifion a'r cyhoedd.

Safon	Disgrifiad llawn o'r safon	Disgrifiad byr o'r safon
4.1	Mae'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir yn hygyrch i gleifion a'r cyhoedd	Hygyrchedd gwasanaethau

Safon	Disgrifiad llawn o'r safon	Disgrifiad byr o'r safon
4.2	Mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu rheoli a'u darparu'n ddiogel ac yn effeithiol	Darparu gwasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol
4.3	Mae meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• dod o ffynonellau ag enw da</li> <li>• diogel ac addas at eu diben</li> <li>• cael eu storio'n ddiogel</li> <li>• cael eu cadw mewn ffordd sy'n sicrhau na cheir mynediad atynt gan bobl heb hawl i wneud hynny</li> <li>• cael eu cyflenwi'n ddiogel i gleifion</li> <li>• cael eu gwaredu mewn ffordd ddiogel</li> </ul>	Rheoli ffynonellau meddyginiaethau a dyfeisiau yn ddiogel
4.4	Mynegir pryderon pan amheuir nad yw meddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol yn addas at eu diben.	Rheoli namau mewn meddyginiaethau a dyfeisiau

### Egwyddor 5 – Offer a chyfleusterau

Mae'r offer a'r cyfleusterau a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol yn amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

Safon	Disgrifiad llawn o'r safon	Disgrifiad byr o'r safon
5.1	Mae'r offer a'r cyfleusterau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau fferyllol ar gael yn rhwydd	Argaeledd offer a chyfleusterau
5.2	Mae offer a chyfleusterau yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• dod o ffynonellau ag enw da</li> <li>• diogel ac addas at eu diben</li> <li>• cael eu storio'n ddiogel</li> <li>• cael eu cadw mewn ffordd sy'n sicrhau na cheir mynediad atynt gan bobl heb hawl i wneud hynny</li> <li>• cael eu cynnal a'u cadw'n briodol</li> </ul>	Cael offer a chyfleusterau o ffynonellau dibynadwy a'u rheoli'n ddiogel
5.3	Mae offer a chyfleusterau'n cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion a'r cyhoedd sy'n derbyn gwasanaethau fferyllol	Preifatrwydd ac urddas o ran offer a chyfleusterau





